* DP 1086/07-11 : Welsh Version

**Brian Gibbons AC/AM**
**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**
**Minister for Social Justice and Local Government**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
OAQ(3)0804(FM)
Ein cyf/Our ref BG/0191/08

Helen Mary Jones, AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Mawrth 2008

Annwyl Ms Jones,

**Cam-drin Domestig**

Yn ystod Cyfarfod Llawn y Prif Weinidog ar 11 Mawrth fe dynnoch sylw at bwnc cynaliadwyedd y nawdd ariannol ar gyfer gweithwyr plant mewn llochesau menywod. Rwyf wedi cytuno i fwrw golwg dros y maes hwn a rhoi gwybod i chi am le yr ydym arni.

Mae'n falch gennyf glywed eich bod yn croesawu'r newyddion bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi plant mewn llochesau. Fel y gwyddoch, dyrannwyd arian ychwanegol i'r gyllideb ar gyfer Cam-drin Domestig, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer Cam-drin Domestig. Un nod ynddi yw sicrhau bod digon o ddiogelwch a chefnogaeth ar gael ar gyfer menywod a phlant sy'n ffoi rhag cam-drin domestig. Er mwyn datblygu'r cymorth hanfodol hwn, aethom ati i ddarparu cyfanswm o £280,000 o arian newydd. Dyrannwyd £246,950 o'r cymorth ariannol newydd i Gymorth i Fenywod a £29,875 i BAWSO (Black Association of Women Step Out), er mwyn cyflogi wyth gweithiwr plant teithiol a Chydlynydd Plant a Phobl Ifanc i gefnogi plant mewn llochesau yng Nghymru.

Mae hwn yn gymorth ariannol cynaliadwy a chafodd ei groesawu gan Gymorth i Fenywod a BAWSO pan gafodd ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2007.

O ganlyniad i'r cymorth ariannol newydd hwn mae Cymorth i Fenywod a BAWSO erbyn hyn yn cael £1,021,801 a £373,841 yn eu tro o gymorth ariannol cyson bob blwyddyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hwn yn gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r cyllid a roddwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

Ar ben hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn talu £1,992.12 y flwyddyn am bob lle ar gyfer gwely mewn llochesau menywod ac am fathau eraill o daliadau ar gyfer cymorth i fenywod. Lwfans Plant ydyw dan system dariff y Grant Refeniw Cefnogi Pobl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8522
Correspondence.Brian.Gibbons@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae angen i mi ddeall yn iawn effaith yr arian newydd cyn penderfynu a oes angen ystyried unrhyw fesurau pellach.

Rwyf yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Chyfarwyddwr Cymorth i Fenywod a byddaf yn parhau i adolygu'r sefyllfa.

**Brian Gibbons AM/AC**